Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ceredigion

**Cyngor Sir Ceredigion**
**Penmorfa**
**Aberaeron**
**Ceredigion**
**SA46 0PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ceredigion

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ceredigion yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno dysgu wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i oedolion yn y gymuned ar draws Ceredigion.

Adeg yr arolygiad, y partner cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir gan grant dysgu yn y gymuned Llywodraeth Cymru yw Cyngor Sir Ceredigion (Dysgu Bro Ceredigion).

Y partneriaid cyflwyno arwyddocaol eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, sy'n cynnig ystod o gyrsiau ar draws y sir, ynghyd â Choleg Sir Gâr/Ceredigion, sy'n cynnig dosbarthiadau TGAU a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn cynnig ychydig iawn o ddosbarthiadau drwy'r bartneriaeth.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys y rhaglenni canlynol: medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, TGAU mathemateg a Saesneg, SSIE, cyrsiau cyflogadwyedd gan gynnwys cyrsiau byr ar bynciau fel cymorth cyntaf neu iechyd a diogelwch, Iaith Arwyddion Prydain, cyrsiau rhifedd wedi'u hariannu drwy Multiply, cyrsiau llesiant, a rhaglenni ymgysylltu/blasu. Ariennir y ddarpariaeth i raddau helaeth trwy ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gydag ychydig gyrsiau â ffi sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan ddysgwyr.

Mae Ceredigion yn sir wledig, gyda chanolfannau poblogaeth neu weinyddol yn Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Aberteifi ac Aberaeron. Cynigir y ddarpariaeth mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws y sir, gyda rhywfaint o ddarpariaeth ar-lein.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 71,500 yw poblogaeth breswyl Ceredigion (Cyfrifiad 2021). Yn 2021, Ceredigion oedd â'r boblogaeth bedwaredd leiaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnal yr un safle ag yr oedd ganddi ddegawd yn ôl. Bu gostyngiad o 5.8% yn y boblogaeth breswyl rhwng 2011 a 2021. Mae cyfrifiad 2021 yn nodi bod 25.7% o boblogaeth y sir yn 65 oed ac yn hŷn – ychydig yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru, sef 21.3%. Cyfran y preswylwyr 15 i 64 oed yw 61.1% – ychydig yn is na'r cyfartaledd i Gymru, sef 62.2%.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) (2019) yn dangos bod y bartneriaeth, sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr, yn gwasanaethu amrywiaeth o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn dwy ardal sydd o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf amddifad Cymru. Ar y cyfan, mae gan y sir gyfran o ardaloedd amddifad sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

Ar y cyfan, mae gan Geredigion lai o oedolion heb gymwysterau a mwy o oedolion sydd wedi cymhwyso i lefel 2 neu uwch na chyfartaledd Cymru. Mae Stats Cymru (ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2022) yn dangos bod gan 86.6% o bobl 18-64 oed yng Nghymru gymwysterau ar lefel 2 neu uwch. Yng Ngheredigion, y ffigur hwn yw 91.7%. Mae canran y preswylwyr sydd heb gymwysterau o gwbl yn 5.7%, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 8.3%.

Ar draws y sir, nid yw 7.1% o breswylwyr Ceredigion wedi'u geni yn y DU, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021). Dyma gynnydd o 1.0% pwynt canran ers 2011.

Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym Medi 2023, canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ar draws Cymru yw 29.2% ar gyfartaledd. Yng Ngheredigion, mae canran y boblogaeth sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 56.8% (Stats Cymru, 2024).

Yn 2022-2023, cafwyd 830 o gofrestriadau ar draws y bartneriaeth. O'r cofrestriadau hyn, roedd 779 yn ddysgwyr unigryw. Adeg yr arolygiad, roedd 472 o ddysgwyr unigryw wedi cofrestru ar draws y bartneriaeth ac, o ran maint dosbarthiadau, roedd tua phump o ddysgwyr ar gyfartaledd yn bresennol fesul sesiwn grŵp.

## Crynodeb

Mae llawer o ddysgwyr ar draws ystod cyrsiau'r bartneriaeth yn gweithio yn ôl safon sy'n briodol i'w mannau cychwyn. Datblygant fedrau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), neu fedrau mewn amrywiaeth o gyrsiau eraill a gynigir gan y bartneriaeth. Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr fod cymryd rhan mewn dysgu wedi gwella'u hyder a'u lles. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi cynnig rhaglenni achredededig mewn SSIE ac, felly, nid yw'r dysgwyr hyn wedi cael cyfle i ennill cymwysterau a all fod o werth iddynt. Nid yw'r bartneriaeth yn gwerthuso sut mae dysgwyr yn symud i'w darpariaeth, nac yn gwneud cynnydd drwyddi a thu hwnt. Ar hyn o bryd, nid yw'r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr.

Mae tiwtoriaid yn datblygu perthynas ragorol â'u dysgwyr ac maent yn eu hadnabod yn dda. Maent yn datblygu perthnasoedd parchus ar y ddwy ochr ac yn creu amgylcheddau dysgu cynnes a chroesawgar. Mae cyflymder y rhan fwyaf o'r sesiynau yn briodol ac yn cael ei addasu i alluoedd dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn ymgysylltu â dysgwyr yn effeithiol ac yn eu herio a'u hysgogi'n ddigonol. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn adnabod nac yn addasu'n ddigon cyflym i ddysgwyr sydd yn barod i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu ac mae dysgwyr yn treulio gormod o amser ar dasgau neu gysyniadau maen nhw eisoes wedi'u deall.

Mae'r ddarpariaeth a'r prosesau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws y bartneriaeth wedi'u tanddatblygu. Nid yw staff a dysgwyr yn glir ynghylch pa gymorth sydd ar gael i ddysgwyr sydd wedi cael diagnosis o angen dysgu ychwanegol.

Ar y cyfan, nid yw'r dulliau gweithio mewn partneriaeth presennol yn effeithiol. Ar hyn o bryd, nid oes strwythur partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ffurfiol ar waith gyda chynrychiolwyr o'r holl bartneriaid i drefnu a chefnogi gwaith y bartneriaeth. Nid oes gan y bartneriaeth weledigaeth, gwerthoedd partneriaeth na chynllun strategol cyffredin.

Nid yw partneriaid yn cydweithredu fel mater o drefn i werthuso darpariaeth y bartneriaeth ac, o ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth lawn a chydlynus o gryfderau'r bartneriaeth a'i meysydd i'w gwella. Mae gan y bartneriaeth gynllun datblygu ansawdd defnyddiol ond, ar hyn o bryd, nid oes proses fonitro strwythuredig ar waith gan arweinwyr i'w cynorthwyo i weithio tuag at gyflawni'r targedau yn y cynllun, na mesur effaith.

Mae arweinwyr strategol o'r tri phrif ddarparwr yn cydnabod y diffygion hyn ac maent megis dechrau mynd i'r afael â nhw.

## Argymhellion

A1 Datblygu cynllun strategol ar gyfer y bartneriaeth, gyda gweledigaeth gyffredin yn sail iddo

A2 Datblygu dull partneriaeth ar gyfer hunanwerthuso a monitro ansawdd strwythuredig er mwyn cyrraedd targedau a chofnodi effaith

A3 Sicrhau bod darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn gallu cael at drosolwg o holl gynnig cyrsiau'r bartneriaeth a'i llwybrau dilyniant yn hawdd

A4 Gweithredu systemau a phrosesu effeithiol ar draws y bartneriaeth i gefnogi ac olrhain cynnydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

A5 Sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i weithio tuag at achrediad neu gymwysterau, lle bo'n briodol

A6 Cynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg fanteisio ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn cael ei osod mewn categori gweithgarwch dilynol ac yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr.

## Y prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddysgwyr ar draws ystod cyrsiau'r bartneriaeth yn gweithio yn ôl safon sy'n briodol i'w mannau cychwyn. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), mae dysgwyr sy'n dechrau gyda gwybodaeth a phrofiad blaenorol gwahanol iawn o Saesneg yn cydweithio ac yn trafod iechyd a lles gan ddefnyddio strwythur brawddegau, amseroedd y ferf a geirfa sy'n briodol i'w lefel. Maent yn gwella gydag amser ac yn datblygu hyder cynyddol i siarad Saesneg yn eu bywyd bob dydd er mwyn cael gwaith, helpu eu plant a chymryd rhan yn eu cymunedau. Mae llawer o ddysgwyr SSIE hefyd yn gwybod ac yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Nid yw dysgwyr SSIE yn y bartneriaeth wedi cael cymhwyster na llwybr dilyniant achrededig ac, felly, nid yw'r dysgwyr hyn wedi cael cyfle i ennill cymwysterau sy'n dangos tystiolaeth o'u cynnydd neu gyflawniad.

Mae dysgwyr ar ystod cyrsiau llythrennedd digidol y bartneriaeth yn datblygu medrau sy'n eu galluogi i ddefnyddio technoleg ddigidol yn fwy hyderus ac yn fwy effeithiol. Er enghraifft, mae dysgwyr hŷn ar gyrsiau achrededig byr ar ddefnyddio meddalwedd taenlenni, cyflwyniadau ac Office yn dysgu neu'n ailedrych ar fedrau sy'n caniatáu iddynt gadw trywydd ar eu cyfrifon, rheoli negeseuon e-bost ar-lein neu baratoi cylchlythyron. Mae dysgwyr ar gyrsiau ar ddefnyddio llechi yn hyderus i wneud galwadau fideo i ffrindiau a theulu neu fynychu gwasanaethau eglwys ar-lein.

Mae dysgwyr ar gyrsiau i ddatblygu medrau llythrennedd neu rifedd yn gweithio yn ôl safonau sy’n briodol i’w mannau cychwyn. Mae’r dysgwyr hyn yn gwerthfawrogi gweithio yn y lleoliadau grŵp bach neu un i un sy’n cael eu cynnig gan y bartneriaeth. Disgrifiant y buddion iddynt yn eu bywyd, fel mwy o hyder, sillafu ac atalnodi gwell a gallu newydd i ddarlun llyfrau ffuglen er pleser. Mewn ychydig achosion, mae gwaith ysgrifenedig dysgwyr wedi’i danddatblygu ac nid yw dysgwyr yn cael digon o adborth gan diwtoriaid i’w helpu i wella ac nid yw ychydig o wallau yn eu gwaith yn cael eu cywiro.

Mae cynnig y bartneriaeth yn cynnwys cyrsiau a gyflwynir ar-lein. Mae dysgwyr ar y cyrsiau hyn yn gwerthfawrogi cyfleustra dysgu ar-lein, yn enwedig pan mae amseroedd teithio neu fynediad at gludiant cyhoeddus ar draws y sir yn peri bod mynychu sesiwn wyneb yn wyneb yn her. Ar y cyfan, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau ar-lein yn ymgysylltu ac yn cyfrannu’n dda at y sesiwn ac maent yn gwneud cynnydd addas. Mae dysgwyr mewn dosbarth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar-lein yn gwneud cynnydd arbennig o gadarn ac maent yn arddangos medrau BSL cryf, gyda defnydd rhwydd o offer dysgu ar-lein fel gweithfannau cydweithredol yn eu hategu. Hefyd, mae gan y bartneriaeth ychydig bach o gyrsiau hybrid lle gall rhai dysgwyr ddod i’r dosbarth a gall rhai fynychu ar-lein. Er bod llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda ac yn gwneud cynnydd da mewn llawer o sesiynau ar-lein a hybrid, mae ychydig ddysgwyr ond yn ymateb trwy atebion llafar byr neu ymatebion byr yn y sgwrs. Pan fydd hyn yn digwydd, mae cyflymder y dysgu a lefel yr her i’r grŵp cyfan yn gostwng ac mae cynnydd dysgwyr yn y sesiwn yn arafu.

Nid oedd unrhyw ddysgwyr yn astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl adeg yr arolygiad. Ar wahân i ddysgwyr SSIE, mae mwyafrif y dysgwyr yn y bartneriaeth yn siarad rhywfaint o Gymraeg. Mae iaith y dysgu mewn llawer o ddosbarthiadau yn Saesneg, yn bennaf. Ar adegau, mae dysgwyr yn defnyddio’r Gymraeg yn eu rhyngweithiadau dydd i ddydd neu ddysgu gyda chyd-ddysgwyr a thiwtoriaid Cymraeg eu hiaith. Mae dysgwyr di-Gymraeg yn ymarfer defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg a ddysgont mewn rhyngweithiadau â’u tiwtoriaid a’u cymheiriaid. Mae ychydig bach iawn o ddysgwyr yn dewis cwblhau eu gwaith neu eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn sesiynau crefft neu greadigol prin y bartneriaeth, mae llawer o ddysgwyr yn arddangos medrau celf neu grefft cryf. Maent yn datblygu hyder ac ystod ddefnyddiol o ddulliau dros gyfnod, er enghraifft trwy ddefnyddio technegau ysgythru ac argraffu ar ddeunydd pecynnu. Mae ychydig o ddysgwyr yn arddangos eu gwaith mewn arddangosfeydd celf neu’n defnyddio eu medrau newydd i greu trefniadau blodau i deulu a ffrindiau. Yn ogystal â’r medrau crefft a chreadigol, mae dysgwyr yn ymarfer medrau rhifedd trosglwyddadwy trwy eu gwaith crefft.

Ar y cyfan, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu gwersi unigol er, yn aml, nid yw dysgwyr yn gwybod beth yw eu targedau tymor byr ar gyfer gwella, neu eu hopsiynau tymor hwy ar gyfer cyrsiau neu ddilyniant yn y dyfodol, yn enwedig mewn cyrsiau heb eu hachredu. Nid yw’r bartneriaeth yn cofnodi nac yn gwerthuso cynnydd dysgwyr i’r ddarpariaeth neu drwyddi yn systematig, na symud rhwng y partneriaid, na chyrchfannau dysgwyr pan fyddant wedi cwblhau eu hastudiaethau. Felly, nid yw’n bosibl gwerthuso effaith gyffredinol y ddarpariaeth ar ddeilliannau dysgwyr dros gyfnod.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae dysgwyr yn teimlo ymdeimlad o berthyn mewn amgylcheddau dysgu lle mae eu tiwtoriaid wedi sefydlu perthnasoedd da a meithrin ymdeimlad o gymuned. Er enghraifft, mewn dosbarth technoleg gwybodaeth (TG) sylfaenol, mae'r sesiwn yn dechrau gyda thrafodaethau anffurfiol ar les a materion cymunedol ac, yn y ddarpariaeth SSIE i ffoaduriaid, mae amgylchedd dysgu diogel a chefnogol wedi'i sefydlu. Mae dysgwyr yn falch o'u cynnydd ac yn mynegi diddordeb mewn cwblhau cymwysterau ac ennill tystysgrifau sy'n dangos tystiolaeth o gynnydd. Dywedodd un dysgwr: 'mae'n teimlo fel cartref, mae'n gyfforddus a gallwch weld sut rwy'n siarad nawr'.

Ar draws y bartneriaeth, dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr fod eu cwrs wedi gwella'u hyder a'u lles. Maent yn siarad am effaith gadarnhaol eu dysgu ac yn disgrifio sefyllfaoedd lle gallant ddefnyddio'u medrau yn eu bywyd ehangach. Er enghraifft, mewn dosbarth 'celf er iechyd meddwl', dywed dysgwyr fod y cwrs yn darparu grŵp cyfeillion a'i fod yn helpu eu meddwl creadigol ar gyfer rhannau eraill o'u bywyd. Mae dysgwyr mewn dosbarth BSL yn disgrifio mwy o hyder wrth ddefnyddio'u dysgu yn eu bywyd ehangach, er enghraifft yn eu gwaith mewn ysgol gynradd, mewn theatr a, hefyd, wrth addysgu partner i arwyddo.

Mewn dosbarthiadau SSIE, mae dysgwyr yn elwa o amrywiaeth o gyfleoedd sy'n meithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn. Mae'r rhain yn cynnwys boreau coffi gydag aelodau o'r gymuned ehangach, siaradwyr gwadd, fel y deintydd a'r meddyg, ac ymweliadau wythnosol gan dîm ailsefydlu'r cyngor i gael help gyda chyllid, tai neu sicrhau gwaith gwirfoddol. Mewn enghraifft fuddiol o weithio mewn partneriaeth, cefnogodd y Groes Goch Brydeinig grŵp o ddysgwyr i ddechrau Clwb Cinio Syriaidd, sydd wedi arwain at ymgysylltu sylweddol â'r gymuned ehangach, gyda thros 100 o westeion mewn rhai digwyddiadau. Mae dysgwyr yn ymarfer siarad Saesneg mewn sesiynau wedi'u haddysgu i hybu eu hyder cyn digwyddiadau'r Clwb Cinio.

Yn ystod wythnos yr arolygiad, roedd presenoldeb dysgwyr yn amrywio ar draws y bartneriaeth, gyda phresenoldeb llawn mewn lleiafrif o sesiynau yn unig. Mae dysgwyr sy'n oedolion yn wynebu llawer o heriau rhag mynychu sesiynau, fel teithio, teulu a chyfrifoldebau gofalu neu rwymedigaethau gwaith, ond mae dysgwyr sy'n absennol yn colli cyfleoedd pwysig i ryngweithio ac elwa o'r gefnogaeth ar gyfer eu lles y mae presenoldeb rheolaidd yn ei darparu.

Mae bron bob un o'r dysgwyr yn dangos brwdfrydedd ar gyfer eu gwaith eu hunain ac maent yn awyddus i gymryd rhan. Mae llawer o ddysgwyr yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ei gilydd hefyd trwy ganmol ac annog ei gilydd.

Mae llawer o ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar ddosbarthiadau ar-lein yn gwerthfawrogi'r dull dysgu hwn ac, mewn sawl achos, mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi eu hanghenion unigol ac mae'n galluogi presenoldeb rheolaidd. Fodd bynnag, yn y sesiynau hybrid ac ar-lein hynny lle mae lleiafrif o ddysgwyr yn diffodd eu camerâu, mae ansawdd y rhyngweithio â'r tiwtor a dysgwyr eraill yn wan ac mae llai o gyfleoedd am ddysgu a chael cymorth gan gymheiriaid.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr bwrpas clir ar gyfer eu dysgu ac maent yn mwynhau datblygu eu medrau newydd. Mewn dosbarthiadau SSIE, mae dysgwyr yn

dangos dyfalbarhad wrth iddynt weithio i gyflawni profion dinasyddiaeth, profion theori gyrru, rolau gwirfoddoli a chyflogaeth. Mewn dosbarth BSL, mae dysgwyr yn disgrifio mwynhau'r 'gwthio' gan eu tiwtor i wella a llwyddo ac maent i gyd eisiau symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr wedi'u symbylu i wneud cynnydd ond nid oes digon ohonynt yn gwybod pa gyrsiau sydd ar gael i symud ymlaen iddynt.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ddarpariaeth a gynigir gan y bartneriaeth yn briodol ac mae'n cynnwys rhaglenni wedi'u hariannu gan Lywodraethau Cymru a'r DU, ynghyd â chyrsiau â ffi. Mae rhaglenni a ariennir yn canolbwyntio'n bennaf ar fedrau hanfodol, lles ac SSIE, yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae opsiynau â ffi yn canolbwyntio ar gyrsiau cyflogadwyedd fel gwasanaeth cwsmeriaid, cymorth cyntaf, a rhaglen ymarferydd medrau hanfodol. Nid oes unrhyw raglenni cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y cynnig presennol.

Mae tua hanner rhaglenni'r bartneriaeth wedi'u hachredu. Mae penderfyniadau partneriaid ynghylch achredu yn dod o dan ddylanwad tueddiadau hanesyddol, galw gan ddysgwyr a chyflogwyr, a pharodrwydd dysgwyr i ymgymryd â chymwysterau ffurfiol. Nid yw un darparwr yn cynnig cyfle i ddysgwyr SSIE ennill cymwysterau nac ardystiad, er gwaethaf eu hawydd am hynny.

Ar hyn o bryd, nid oes fframwaith partneriaeth ffurfiol ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth a mapio dilyniant, gan ddibynnu yn hytrach ar gysylltiadau anffurfiol rhwng sefydliadau partner. Er bod gan ddarparwyr rywfaint o ymwybyddiaeth o anghenion cyflogwyr ac anghenion lleol trwy gyrff fel y bartneriaeth medrau ranbarthol, nid yw'r bartneriaeth yn casglu nac yn rhannu gwybodaeth yn systematig i bennu'r galw a chynllunio ar y cyd.

Mae partneriaid yn cyflwyno rhaglenni mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol croesawgar ar draws y rhanbarth, gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, safle coleg, theatr a chastell. Mae dull y bartneriaeth o fynd â dysgu i ddysgwyr, o ystyried natur wledig y rhanbarth a'r cludiant cyhoeddus prin ar draws y rhanbarth, yn werth chweil. Darperir lleiafrif o ddarpariaeth y bartneriaeth ar-lein, i ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr oherwydd problemau cludiant, dysgwyr ag ymrwymiadau gofal plant ac i fodloni anghenion pobl sy'n teimlo na allant ddysgu mewn lleoliadau wyneb yn wyneb.

Mae bron bob un o'r tiwtoriaid wedi datblygu perthynas a pharch cilyddol rhagorol gyda'u dysgwyr. Maent yn creu amgylcheddau dysgu cynnes a chroesawgar ac yn addasu tasgau a gweithgareddau yn addas i anghenion penodol dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn anogol ac yn gefnogol, ac yn hapus i ganmol a gwerthfawrogi cyfraniadau dysgwyr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn hoelio sylw'n dda mewn sesiynau ac yn siarad yn gadarnhaol am yr addysgu ar eu cwrs.

Mewn sesiynau ar-lein, mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn arddangos addysgeg ar-lein gadarn, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau a phlatfformau sy'n ategu dysgu a chynnydd. Mewn sesiynau hybrid, a gyflwynir ar yr un pryd i ddysgwyr sy'n mynychu'n bersonol ac ar-lein, mae tiwtoriaid yn ei chael hi'n fwy heriol dal sylw

dysgwyr a gwirio'u dealltwriaeth, yn enwedig pan fydd dysgwyr wedi diffodd eu camerâu.

Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio cyfleoedd naturiol i integreiddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru i'w sleidiau, er enghraifft trwy ddefnyddio geirfa neu sleidiau cyflwyno dwyieithog.

Mewn llawer o achosion, mae tiwtoriaid yn datblygu sesiynau wedi'u cynllunio a'u strwythuro'n dda sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn gweithio tuag at ddeilliannau clir i ddysgwyr. Mewn grwpiau wedi'u hachredu, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfrannu at osod eu targedau unigol ac, yn yr achosion gorau, mae tiwtoriaid yn olrhain eu cynnydd trwy gydol eu dysgu yn dda, gan ddefnyddio dulliau asesu addas. Fodd bynnag, mewn llawer o sesiynau heb eu hachredu, nid yw targedau unigol yn cael eu gosod i ddysgwyr ac, o ganlyniad, nid yw tiwtoriaid bob amser yn gallu arddangos nac olrhain cynnydd dysgwyr o'u mannau cychwyn unigol.

Ar draws y bartneriaeth, mae cyflymder y rhan fwyaf o'r sesiynau yn briodol ac wedi'i addasu i alluoedd dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau, technolegau digidol a thasgau siarad a gwrando sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol ac yn rhoi digon o hyder ac ysgogiad iddynt. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn adnabod nac yn addasu'n ddigon cyflym i ddysgwyr sy'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Lle mae hyn yn digwydd, mae dysgwyr yn treulio gormod o amser yn gweithio ar dasgau neu gysyniadau y maent eisoes wedi'u deall.

Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn defnyddio technegau holi yn dda i ennyn diddordeb dysgwyr a gwirio'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Maent yn caniatáu amser priodol i ddysgwyr ymateb a llunio atebion. Er enghraifft, mewn dosbarth SSIE, mae'r tiwtor yn defnyddio holi agored yn dda i annog dysgwyr i esbonio ystyr geiriau anghyfarwydd i'r grŵp. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw tiwtoriaid yn targedu eu cwestiynau'n ddigon da i ganiatáu cyfle i'r holl ddysgwyr yn y grŵp ateb.

Mae llawer o diwtoriaid yn strwythuro'u dosbarthiadau'n dda i sicrhau bod dysgwyr o alluoedd amrywiol yn parhau i gynnal eu symbyliad a'u diddordeb trwy gydol y sesiwn. Maent yn cydbwyso'u hamser yn briodol rhwng gwersi ac yn cynnig tasgau ymestyn i'r rhai sy'n gorffen gweithgareddau'n gynnar. Fodd bynnag, mewn ychydig ddosbarthiadau SSIE, nid yw'r tasgau a'r technegau holi'n cael eu haddasu i ddysgwyr â galluoedd cymysg ac, o ganlyniad, mae rhai dysgwyr yn gwneud cynnydd arafach nag y gallent.

Ar draws y bartneriaeth, mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn rhoi adborth llafar adeiladol a chefnogol o fewn sesiynau sy'n rhoi arweiniad clir i ddysgwyr ar eu cynnydd wrth ddysgu. Fodd bynnag, pan fydd dysgwyr yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig, nid yw ychydig o diwtoriaid yn rhoi adborth yn gyson a, phan fyddant yn gwneud hynny, mae'n rhy fyr ac nid yw'n adeiladol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn hysbysebu eu cyrsiau eu hunain trwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, diwrnodau agored a thaflenni. Fodd bynnag, nid oes dull partneriaeth cyffredinol ar hyn o bryd o

ran hyrwyddo ehangder y ddarpariaeth yn y bartneriaeth, nac unrhyw ffynhonnell unigol lle mae gwybodaeth am yr holl gyrsiau ar gael. O ganlyniad, mae'n gymhleth i ddarpar ddysgwyr ddarganfod pa ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Dim ond gwybodaeth gyfyngedig iawn y mae partneriaid yn ei darparu i ddysgwyr presennol am eu llwybrau dilyniant posibl.

Mae tiwtoriaid yn creu amgylchedd lle mae dysgwyr o gefndiroedd amrywiol yn ymgysylltu'n dda â'i gilydd ac yn dangos parch ar y ddwy ochr. Er enghraifft, mewn dosbarth 'celf er iechyd meddwl', mae dysgwyr o oedrannau gwahanol iawn yn rhyngweithio'n rhydd â'i gilydd mewn gwaith grŵp a phâr, gan gynnig gofal, empathi a chefnogaeth i'w gilydd.

Mae cymorth lles yn cael ei ddarparu i bron bob dysgwr gan diwtoriaid eu cwrs. Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn gwneud addasiadau a newidiadau yn addas i anghenion eu dysgwyr. Yn yr achosion gorau, mae tiwtoriaid wedi datblygu proffiliau grŵp defnyddiol sy'n amlinellu anghenion gwahanol y grŵp a'r ymyriadau a fyddai'n cynorthwyo'r grŵp i wneud cynnydd. Mae bron bob un o'r tiwtoriaid yn bwynt cyswllt allweddol i ddysgwyr ac, yn aml, maent yn cynnig cymorth defnyddiol ar gyfer lles eu dysgwyr.

Mae'r ddarpariaeth a'r prosesau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws y bartneriaeth wedi'u tanddatblygu. Mewn un partner, mae gweithdrefnau ar gyfer sut i gefnogi dysgwyr ag ADY yn anffurfiol ac yn dibynnu'n ormodol ar diwtoriaid i gynnig cymorth ar sail eu profiadau eu hunain. Gan amlaf, mae cymorth ADY wedi'i gyfyngu i amser un i un ychwanegol gyda'r tiwtor a, lle cynigir y cymorth hwn, ni chaiff ei gofnodi na'i rannu, ac nid yw cynnydd dilynol y dysgwr yn cael ei olrhain. O ganlyniad, nid yw staff a dysgwyr yn glir ynghylch pa gymorth sydd ar gael i ddysgwyr sy'n cael diagnosis o angen dysgu ychwanegol.

Mae gan bob darparwr ei brosesau unigol ei hun ar gyfer casglu safbwyntiau dysgwyr trwy amrywiaeth o ddulliau, fel arolygon dysgwyr, gwerthusiadau ôl-gwrs, fforymau dysgwyr a theithiau dysgu. Mae cyfraddau ymateb dysgwyr i werthusiadau ôl-gwrs yn rhesymol ac mae darparwyr yn adrodd yn ôl ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i lais y dysgwr ar lefel leol. Er enghraifft, i ymateb i adborth dysgwyr, mae Addysg Oedolion Cymru yn cynnal fforymau iechyd meddwl ar-lein ac mae'n cynhyrchu cylchlythyr iechyd meddwl yn fisol i staff a dysgwyr sy'n cyfeirio at eu gwasanaeth hunangyfeirio ar-lein ar gyfer cwnsela. Ar hyn o bryd, nid yw partneriaid yn cydweithio i ddadansoddi adborth llais y dysgwr ar draws y bartneriaeth i nodi tueddiadau na chyfleoedd am feysydd ymyrryd ar y cyd.

Mae gan bob darparwr o fewn y bartneriaeth y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith yn gysylltiedig â diogelu, gan gynnwys arferion recriwtio diogel. Mae'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar-lein gorfodol rheolaidd priodol ac mae arweinwyr diogelu dynodedig wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar lefelau uwch. Mae partneriaid yn monitro ac olrhain cofnodion hyfforddiant gorfodol staff yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfredol.

Dywed bron bob un o'r dysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu yn eu man dysgu. Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar hyn o bryd, nid oes gan y bartneriaeth weledigaeth, gwerthoedd na chynllun strategol cyffredin. Nid oes strwythur ffurfiol ar waith ar hyn o bryd gyda chynrychiolwyr o'r holl bartneriaid i drefnu a chefnogi gwaith y bartneriaeth. Nid yw'r bartneriaeth yn gweithredu'n effeithiol nac yn gydlynol. Mae arweinwyr strategol o'r tri phrif ddarparwr yn cydnabod y diffygion hyn ac maent megis dechrau mynd i'r afael â nhw.

Nid yw partneriaid yn cydweithredu fel mater o drefn i werthuso darpariaeth y bartneriaeth ac, o ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth lawn o gryfderau'r bartneriaeth a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymagwedd bresennol at hunanwerthuso yn ddigyswllt, heb gysondeb, ac mae hyn i'w weld yn yr amrywiadau wrth adrodd am bresenoldeb dysgwyr.

Mae gan y bartneriaeth 'gynllun datblygu ansawdd' defnyddiol sy'n cynnwys set o dargedau lefel uchel priodol, y nodir bod pob un ohonynt o flaenoriaeth lefel uchel neu ganolig. Maent yn cynnwys gweithredoedd yn gysylltiedig â gweithredu strwythur partneriaeth effeithiol, ymrwymo i weledigaeth a blaenoriaethau clir, ac ymagwedd bartneriaeth at dargedu dysgwyr o ardaloedd mwy difreintiedig o'r sir. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes proses fonitro strwythuredig ar waith gan arweinwyr i'w cynorthwyo i weithio tuag at gyflawni'r targedau hyn, na mesur effaith.

Mae gan bob partner ei brosesau ansawdd priodol ar waith, y mae llawer ohonynt yn gyffredin ar draws pob darparwr. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithgareddau llais y dysgwr, rhaglen arsylwadau a theithiau dysgu, monitro presenoldeb, prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol, a holiaduron staff. Fodd bynnag, nid oes ymagwedd bartneriaeth gydlynol at fonitro ansawdd ac ni chaiff gwybodaeth ei rhannu am brosesau ansawdd, deilliannau, a chamau gweithredu cysylltiedig.

Mae arweinwyr, rheolwyr a thiwtoriaid yn nodi anghenion dysgu proffesiynol yn weithgar trwy amrywiaeth o ddulliau priodol, gan gynnwys arfarniadau, arsylwadau ac adborth staff. Ar draws yr holl brif ddarparwyr, mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod gan staff fynediad da i gyfleoedd dysgu proffesiynol, boed yn ffurfiol, yn anffurfiol, yn cael eu bodloni trwy ddulliau cymorth allanol, trwy sefydliadau hyfforddi allanol, neu ddysgu ar-lein. Mae enghreifftiau'n cynnwys sesiynau ar wella medrau digidol mewn addysgu a dysgu, gwreiddio'r Gymraeg yn y cwricwlwm, neu hyfforddiant gan ddarparwr allanol gyda ffocws ar iechyd meddwl a lles staff a dysgwyr.

Mae ychydig bach iawn o enghreifftiau o weithgareddau dysgu proffesiynol ar draws y bartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ymagwedd gyffredin rhwng dau brif bartner darparu at brosiect ymchwil weithredol sy'n mynd rhagddo, a digwyddiadau dysgu proffesiynol traws-sir ystyrlon a oedd yn canolbwyntio ar Atal (Prevent), y Ddeddf ADY, a'r cwricwlwm medrau hanfodol craidd.

Yn ôl y bartneriaeth, mae'n gwario'r grant dysgu cymunedol yn unol â'r targed.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiaduron i ddysgwyr a staff

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, y llywodraethwyr (lle y bo’n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith a gwrandoar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllunio’r bartneriaeth ar gyfer gwella ansawdd ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle y bo’n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/05/2024